| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 22 Ionawr 2025 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau |
| **Awdur yr adroddiad** | Pennaeth Cyllid ac Archwilio |
| **Teitl** | **1.** Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2025/26 a Dangosyddion Darbodus 2025/26 i 2027/28 (Atodiad 1)<br><br>**2**. Adroddiad Diweddaru ar Reoli'r Trysorlys Chwarter 3 2024/25 (Atodiad 2) |

# 1 Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (Atodiad 1) yn dangos sut bydd y Cyngor yn rheoli ei fuddsoddiadau a'i fenthyciadau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod ac yn gosod y polisïau ar gyfer gweithredu'r swyddogaeth rheoli'r trysorlys. Mae'r Adroddiad Diweddaru ar Reoli'r Trysorlys (Atodiad 2) yn rhoi manylion gweithgareddau Rheoli Trysorlys y Cyngor yn ystod chwarter 3, 2024/25.

# 2 Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae Cod Ymarfer Rheoli Trysorlysoedd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus yn flynyddol. Mae gofyn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adolygu'r adroddiad hwn cyn y caiff ei gymeradwyo gan y Cyngor ar 28 Ionawr 2025. At hynny, rhan o rôl y Pwyllgor yw cael diweddariadau am weithgarwch Rheoli'r Trysorlys bedair gwaith y flwyddyn.

# 3 Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Pwyllgor yn adolygu'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2025/26 a'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2025/26, 2026/27 a 2027/28 (Atodiad 1).

3.2 Bod yr Aelodau yn nodi'r adroddiad diweddaru ar Reoli Trysorlys (Atodiad 2).

3.3 Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith

ar Les (Atodiad 3) fel rhan o'i ystyriaethau.

# 4 Manylion yr adroddiad

**Cefndir**

4.1 Mae rheoli trysorlys yn golygu edrych ar ôl arian parod y Cyngor, sy'n rhan hanfodol o waith y Cyngor gan fod tua £0.5 biliwn yn mynd drwy gyfrif banc y Cyngor bob blwyddyn.

4.2 Ar unrhyw un adeg gall y Cyngor ddal hyd at £40 miliwn mewn arian parod ac felly mae'n rhaid iddo sicrhau ei fod yn cyflawni cyfradd enillion ar y buddsoddiadau o fewn fframwaith rheoli risg priodol, a dyna pam bod arian yn cael ei fuddsoddi gyda nifer o sefydliadau ariannol.

Wrth fuddsoddi, blaenoriaethau'r Cyngor yw:

- Cadw arian yn ddiogel (diogelwch)
- Sicrhau bod yr arian yn dod yn ôl pan fydd ei angen (hylifedd)
- Sicrhau cyfradd adennill (arenillion)

**Datganiad y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2025/26**

4.3 Mae'r Datganiad ar gyfer 2025/26 ar gael yn Atodiad 1. Ni fu unrhyw newid mawr i'r Strategaeth ers y llynedd. Mae'r adroddiad yn cynnwys Dangosyddion Darbodus Rheoli Trysorlys sy'n gosod cyfyngiadau ar weithgarwch rheoli trysorlys y Cyngor fel y dangosir yn Atodiad 1, Ychwanegiad A.

**Adroddiad Diweddaru ar Reoli'r Trysorlys, Chwarter 3**

4.4 Mae'r Adroddiad Diweddaru ar Reoli'r Trysorlys (Atodiad 2) yn rhoi manylion gweithgareddau Rheoli Trysorlys y Cyngor yn ystod 2025/26 hyd at 31 Rhagfyr 2024.

# 5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae Strategaeth Rheoli Trysorlys effeithlon yn galluogi'r Cyngor i leihau ei gostau benthyca a rhyddhau cyllid ar gyfer ei flaenoriaethau buddsoddi.

## 6 Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Nid oes goblygiadau cost ychwanegol yn codi o ganlyniad i bennu Dangosyddion Darbodus. Pwrpas y Strategaeth Rheoli Trysorlys yw cael yr enillion gorau o fewn fframwaith risg a reolir yn briodol.

6.2 Mae costau ynghlwm wrth fenthyca, y brif gost yw'r llog sy'n daladwy ond mae yna hefyd ffioedd broceriaeth, tanysgrifiadau meddalwedd a ffioedd ymgynghorwyr rheoli trysorlys. Mae'r costau hyn yn cael eu mantoli gan log a dderbynnir ar fuddsoddiadau'r Cyngor. Caiff llog a delir ac a dderbynnir ei fonitro fel rhan o'r gweithdrefnau monitro cyllid misol.

## 7 Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1 Dylai cynllunio ariannol a gwneud penderfyniadau sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac, yn benodol, ystyriaeth briodol i effaith hirdymor penderfyniadau ariannol, gan gynnwys y cyfnod ad-dalu a chostau oes gyfan penderfyniadau buddsoddi cyfalaf, cynigion cyllideb â'u heffaith wedi'u hasesu'n briodol a strategaethau dyled a buddsoddiad hirdymor (rheoli trysorlys). Mae egwyddorion pwyll, fforddiadwyedd a chynaliadwyedd eisoes wedi'u cynnwys o fewn gofynion y Cod Darbodus a dylent fod yn sail i gynllunio ariannol a gwneud penderfyniadau.

7.2 Yng nghyd-destun rheoli trysorlys, mae'r gofynion presennol i asesu ac adrodd ar ganlyniadau ariannol hirdymor penderfyniadau buddsoddi a benthyca, gan ddefnyddio dangosyddion darbodus a chynllunio dyled hirdymor, yn cefnogi nodau cynaliadwyedd y Ddeddf Llesiant.

7.3 Mae'r adroddiad ar yr Asesiad o Effaith ar Les wedi'i gynnwys yn Atodiad 3 ac mae'n dangos sut mae strategaeth Rheoli Trysorlys effeithlon yn hyrwyddo nodau lles y Ddeddf.

## 8 Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Mae’r Cyngor wedi ymgynghori â’i ymgynghorwyr rheoli trysorlys, Arlingclose Ltd.

## 9 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae rheoli trysorlys yn golygu gofalu am symiau sylweddol o arian parod, felly mae'n rhan hanfodol o waith y Cyngor. Mae'n gofyn am strategaeth glir a rheolaethau priodol i ddiogelu arian y Cyngor, er mwyn sicrhau enillion rhesymol ar fuddsoddiadau a bod dyledion yn cael eu rheoli’n effeithiol ac yn ddoeth.

9.2 Yn unol â Chod Ymarfer Rheoli Trysorlys CIPFA mae'n ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys bob blwyddyn ariannol.

## 10 Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Mae risgiau cynhenid ynghlwm wrth unrhyw weithgaredd rheoli trysorlys fel yr amlinellir yn y Datganiad Strategaeth. Mae gan y Cyngor bolisi rheoli risg ond mae'n amhosibl dileu'r risgiau hyn yn gyfan gwbl.

## 11 Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn pennu'r gofyniad i awdurdodau lleol osod Dangosyddion Darbodus ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio â Chod Darbodus Cyllid Cyfalaf ar gyfer Awdurdodau Lleol a luniwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA).